# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**LEGISLATION COMMITTEE** **Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**REPORT** **ADRODDIAD**

## Rheoliadau Adnabod Defaid a Geifr (Cymru) 2000

**<u>Y Cefndir</u>**

Mae'r rheoliadau hyn yn gweithredu'r darpariaethau mewn perthynas â defaid a geifr yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 92/102/EEC ar adnabod a chofrestru anifeiliaid.

Mae'r rheoliadau yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â chadw cofnodion a dogfennau eraill a marcio defaid a geifr.  Maent yn rhoi pwerau gorfodi i arolygwyr hefyd.

Mae'r rheoliadau yn diddymu Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion Adnabod a Symud) 1996 ac yn diwygio Rheoliadau Premiwm Blynyddol Defaid 1992 i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru. Diben y diwygiad olaf hwn yw darparu ar gyfer adennill premiymau sy'n cael eu talu i gynhyrchwyr sydd wedi torri Rheoliad 5 o'r rheoliadau hyn.

Mae arfarniad, a baratowyd yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, ar gael.

**Rheol Sefydlog 11.5**

**Rheoliad 2 a Rheoliad 7(4)**

Nid oes angen y diffiniad o “dyddiad perthnasol” ac nid yw o gymorth i’r darllenydd. Mae cyfeirio at y dyddiad fel “1 Ionawr 2001” yr un mor gryno ac yn haws i’w ddilyn a’i ddeall. Ymhellach, cyfeirir yn Rheoliad 7(4) at ddefaid neu eifr a gafodd eu “marcio cyn y dyddiad perthnasol” ac “a oedd ar y daliad genedigol ar y dyddiad perthnasol hwnnw”. Nid yw’n glir ai cyfeirio at y “dyddiad perthnasol” fel y’i diffiniwyd yw’r bwriad, ynteu at y dyddiad perthnasol “hwnnw” pryd y cafodd y defaid a’r geifr eu *marcio.* Gofynnir felly a ddylai’r gair “hwnnw” gael ei hepgor neu beidio mewn gwirionedd. Beth bynnag, ni fyddai’r dryswch hwn wedi digwydd pe bai’r dyddiad ei hun wedi cael ei roi yn lle’r diffiniad o’r “dyddiad perthnasol”.

**Rheoliad 14**

Mae Rheoliad 14(1) yn nodi o dan ba amgylchiadau y dylid tynnu tagiau clust ac amnewid tagiau clust neu datŵs. Yn nes ymlaen mae paragraffau (2) a (3) o’r rheoliad yn dweud sut y dylid amnewid tagiau clust neu datŵs. Serch hynny, mae paragraff (4) yn dweud nad yw paragraffau (2) a (3) yn gymwys yn achos anifail mewn marchnad neu ladd-dy. Mae’n ymddangos felly fod yr hawl i amnewid tag neu datŵ yn cael ei chadw gan farchnad neu ladd-dy ond nid yw’r rheoliadau yn darparu ynghylch sut y dylid gwneud hynny. Mae’n ymddangos felly mai amnewid mewn unrhyw ffordd y mae’r ceidwad yn ei dymuno yw effaith paragraff (4) tra bod yr anifail mewn marchnad neu ladd-dy. Unwaith eto gofynnir ai dyma’r bwriad neu beidio.

Cynghorir y Pwyllgor felly fod yna faterion y mae angen esboniad pellach amdanynt yn unol â Rheol Sefydlog 11.5(iv) a chyn gwahodd y Cynulliad i roi

sylw arbennig i'r rheoliadau dylid hysbysu Ysgrifennydd y Cynulliad a rhoi cyfle iddo roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ac ateb unrhyw gwestiwn a godir naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.

## Sylwadau Cyffredinol

### Y Nodyn Esboniadol

Yn y nodyn esboniadol mae gwall teipograffyddol ar ddechrau ail frawddeg y paragraff cyntaf ("Mae'nt"). Mae hyn yn rhywbeth y mae modd ei gywiro adeg cyhoeddi'r rheoliadau (a chymryd yn ganiataol nad ydynt wedi'u cyhoeddi eto).

### Rheoliad 4

Mae'r rheoliad hwn yn ymwneud â chofnodion ynghylch defaid a geifr er bod y pennawd yn cyfeirio at ddefaid yn unig. Mae hyn yn rhywbeth y mae modd ei gywiro adeg cyhoeddi'r rheoliadau.

### Rheoliad 16

Mae yna (1) diangen ar ddechrau'r rheoliad hwn. Unwaith eto gellir cywiro hyn cyn cyhoeddi.

### Rheoliad 22

Yn y testun Saesneg mae'r rheoliad hwn yn dweud bod y rheoliadau hyn i'w gweithredu a'u gorfodi gan awdurdod lleol – "other than Regulation 5". Er hynny, mae'r testun Cymraeg yn cynnwys priflythyren "I" cyn y rhif 5 yn ôl pob golwg. Er mai "heblaw rheoliad 15" sydd bellach yn y testun Cymraeg ar yr olwg gyntaf, yn ein barn ni mae'n amlwg mai gwall teipograffyddol yw hwn y gellir ei gywiro wrth gyhoeddi'r rheoliadau gan mai'r llythyren "I" a welir ac nid y rhif 1.

### Rheoliad 23

Mae'r rheoliad hwn yn diwygio Rheoliadau Premiwm Blynyddol Defaid 1992 sy'n gymwys i Gymru a Lloegr. Deellir nad yw'r diwygiadau cyfatebol wedi'u gwneud

yn Lloegr ac o ganlyniad effaith hynny yw creu testun gwahanol ar gyfer Cymru a Lloegr. Sylweddolir mai i Gymru yn unig y mae'r rheoliadau hyn yn gymwys a bod y diwygiad felly yn gymwys i Gymru yn unig, ond er y gellir cael darpariaethau gwahanol mewn set o reoliadau Cymru a Lloegr ar gyfer y naill wlad neu'r llall, bu Cwnsleriaid Seneddol gynt o'r farn y dylid gwneud hyn o fewn un testun. Awgrymir felly y gellid yn y dyfodol gwneud y diwygiad drwy roi mewn rheoliad ychwanegol fydd yn gymwys i Gymru yn unig.

Rhoddwyd cyfle cynnar i gynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyflwyno sylwadau ar y rheoliadau hyn ac felly mae materion eraill a nodwyd bellach wedi'u cywiro.

*Sylwer: Adroddiad drafft gan y cynghorywr cyfreithiol i'r Pwyllgor Deddfau yw hwn. Mae wedi'i baratoi i'r Pwyllgor ei ystyried.*

**DYLAN HUGHES**
Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol
Y Pwyllgor Deddfau

**8 Medi 2000**
Cyf. y ffeil: LAD 01-01-135